**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Julie Morgan AS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

25 Medi 2023

**Cynllun Peilot Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro**

Annwyl Julie,

Rydym wedi cael gwybod bod Cynllun Peilot Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol (FDAC) Caerdydd a'r Fro wedi'i derfynu. Mae hyn, wrth gwrs, yn peri pryder mawr i'r Pwyllgor.

Fel y cofiwch, gwnaethom ofyn am sicrwydd clir, yn ein sesiwn graffu ddiweddar ar 14 Medi, ynghylch cyllid y cynllun peilot. Roeddem yn falch o glywed gennych chi a'ch swyddogion nad oedd hwn yn faes lle roedd Llywodraeth Cymru yn ystyried gwneud arbedion fel rhan o'r newidiadau presennol yn ystod y flwyddyn i gyllideb 2023/24 Llywodraeth Cymru.

At hynny, gwyddoch fod un o'r deuddeg 'diwygiad radical' yn ein hadroddiad diweddar ar wasanaethau ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yw cyflwyno'r FDAC yn y tymor hir fel a ganlyn:

> *Yn amodol ar werthusiad llawn llwyddiannus, cyflwyno'r model llys datrys problemau (model y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol, neu* 'FDAC') ledled Cymru.

Felly, yn amlwg, mae'n destun pryder mawr y bydd y cynllun peilot ei hun yn dod i ben yn gynnar ac na fydd yr FDAC yn parhau yn y tymor hir, gydag ansicrwydd ynghylch yr achosion gweithredol presennol a'r hyn y mae hyn yn ei olygu i'r plant hynny a'u teuluoedd.

Oherwydd amseroldeb y mater hwn, byddem yn gwerthfawrogi ymateb cyn gynted â phosibl ynglŷn â'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau dyfodol yr FDAC yn y tymor byr a'r tymor hir,

fel y gwnaethoch ddweud wrthym oedd eich bwriad ar 14 Medi. Rydym hefyd yn ysgrifennu at Gyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg i fynegi ein pryderon.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.